

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>15 Chwefror 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Bethan Griffith</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679 195</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Pris Cinio Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilydol Medi 2022</b>

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol ym mis Medi 2022.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o fis Medi 2022 yn golygu £107,190 o bwysau ar gyllideb yr Adran Addysg yn 2022/23. Erbyn mis Medi 2022, bydd disgyblion cyfnod sylfaen (4 i 7 oed) yn derbyn cinio am ddim a bydd unrhyw godiad yn effeithio disgyblion cyfnod allweddol 2 (8 i 11 oed) yn unig. Felly, mae'n briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol y Cabinet bod peidio cynyddu pris cinio ysgol eleni yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

#### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod y gyllideb arlwyo cynradd, arbennig a dilydol yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgol, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio ysgol cynradd, arbennig a dilydol gadw i fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol wedi cynyddu 5.8% yn 2022-23 ac er mwyn cwrdd â'r costau hynny byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.65.

Fodd bynnag, gan ystyried ein sefyllfa gymharol a'r flaenoriaeth sydd gennym o ran lleihau anghydraddoldeb, dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ystyried pris cinio ysgol yn y cyd-destun hwn. Dim ond plant teuluoedd sydd ar fudd-daliadau sydd yn gymwys ar gyfer y cynllun Cinio am Ddm a byddai cynyddu pris cinio ysgol ar adeg lle mae nifer o deuluoedd y sir yn wynebu cyfnod heriol iawn yn ychwanegu at y baich ariannol y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd.

#### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol Gwynedd (sef £2.50) gyda gweddill Cyngorau Cymru (atodiad 1), mae 5 yn codi pris uwch, 2 yn codi yr un pris â Gwynedd ac 14 yn codi pris îs.

Byddai codi pris cinio yn unol â chwyddiant yn rhoi Gwynedd yn y chwarterel uchaf o brisiau cinio yng Nghymru. Byddai peidio codi pris cinio yn dod a ni yn agosach at y chwartil isaf.

Byddai codi'r pris cinio er mwyn ymdopi gydag effaith chwyddiant yn golygu cynnydd o £2.50 i £2.65.

#### **5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Hysbysu ysgolion Gwynedd y bydd pris cinio ysgol yn cael ei rewi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesa unwaith yn rhagor ac y bydd y Cyngor yn cyllido'r bwlch ariannol o goffrau canolog heb effaith ar y gyllideb Addysg.

#### **6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

##### **Barn y Swyddogion Statudol:**

##### **i. Y Swyddog Monitro:**

*Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.*

##### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

*Cadarnhaf bod y ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad yma'n amcangyfrifon teg. Ynglŷn ag ariannu'r bwlch perthnasol yng nghyllideb yr Adran Addysg, cadarnhaf wrth lunio cyllideb drafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, neilltuwyd*

*darpariaeth cyffredinol mewn cyllideb wrth gefn gellid ei ddefnyddio i'r perwyl hyn.*